

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

ADRODDIAD I:	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD:	21 MEDI 2023
PWNC:	ADOLYGIAD RHEOLI'R TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2023/24
DEILYDD PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS - DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID
SWYDDOG ARWEINIOL:	MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
SWYDDOG CYSWLLT:	JEMMA ROBINSON - JemmaRobinson@ynysmon.llyw.cymru

### Natur a rheswm am adrodd

Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a gyda Chynllun Dirprwyo Rheoli'r Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2023/24 (Atodiad 10 o Ddatganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac yna'r Cyngor llawn ar ôl i'r Pwyllgor hwn graffu arno.

### 1. Cyflwyniad

Yn unol â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio adolygiad rheoli'r trysorlys blynyddol o'i weithgareddau a'r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2023/24. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Côt Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côt) a Chôt Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus).

Yn ystod 2023/24, y gofynion adrodd sylfaenol oedd y dylai'r Cyngor llawn dderbyn yr adroddiadau a ganlyn:-

- strategaeth flynyddol ar gyfer y trysorlys cyn i'r flwyddyn gychwyn (derbyniwyd ar 9 Mawrth 2023);
- adroddiad diweddarau canol blwyddyn ar y trysorlys (derbyniwyd ar 7 Mawrth 2024);
- adolygiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben yn disgrifio'r gweithgareddau o gymharu â'r strategaeth (yr adroddiad hwn).

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi derbyn adroddiadau diweddarau chwarterol ar gyfer rheoli'r trysorlys (chwarter un a chwarter tri) a dderbyniwyd ac a gymeradwywyd gan y Deilydd Portffolio.

Mae'r amgylchedd rheoleiddio yn gosod cyfrifoldeb ar Aelodau i adolygu a chraffu ar bolisi a gweithgareddau rheoli'r trysorlys. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn bwysig yn hynny o beth gan ei fod yn darparu manylion am y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac mae'n tynnu sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau.

Mae'r Cyngor hwn yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofyniad o dan y Côt bod rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu ymlaen llaw ar bob un o'r adroddiadau rheoli'r trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn. Rhoddwyd hyfforddiant i aelodau ar faterion rheoli'r trysorlys ar 15 Medi 2023 er mwyn cefnogi rôl sgritiini yr aelodau.

Mae'r Swyddog Adran 151 yn cadarnhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y benthycwyd ac na aethpwyd y tu hwnt i'r terfyn benthycu statudol (y terfyn awdurdodedig).

Hefyd, mae'r adroddiad yn nodi'r canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2023/24:-

- Ffactorau allanol – gan gynnwys adolygiad o'r economi, perfformiad cyfraddau llog yn ystod y flwyddyn;
- Ffactorau mewnol – gan gynnwys perfformiad gwariant cyfalaf, yr effaith ar y cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod, archwaeth risg o ran buddsoddiadau, y benthyciadau a gymerwyd gan y Cyngor a'r effaith ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC);
- Y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn 2023/24 – gan gynnwys rheoli dyledion y Cyngor a benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn;
- Rheoli'r Trysorlys – beth yw'r Dangosyddion Darbodus a sut y cânt eu mesur;
- Cymharu'r Dangosyddion Darbodus – cymharu'r Dangosyddion Darbodus gwirioneddol gyda'r rhagolygon ar ddechrau'r flwyddyn;
- Edrych ymlaen at 2024/25 a thu draw i hynny; a'r
- Casgliad.

## 2. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Allanol

**2.1 Cyfraddau Llog** – Erbyn mis Mawrth 2023, roedd Cyfradd y Banc wedi gorffen ar 5.25%. Cynyddodd Cyfradd y Banc yn gyson trwy gydol 2023/24, gan ddechrau ar 4.25% a gorffen ar 5.25%.

**2.2 Yr Economi - y Deyrnas Unedig** - Yn erbyn cefndir o bwysau chwyddiant ystyfnig, ymosodiad Rwsia ar Wcráin a rhyfel yn y Dwyrain Canol, mae cyfraddau llog y DU wedi parhau i fod yn gyfnewidiol ar draws y gromlin, o Gyfradd y Banc i gynnyrch gilt 50 mlynedd, ar gyfer y cyfan o 2023/24.

Mae marchnadoedd wedi ceisio dod â chyfnod parhaus banciau canolog i ben o gadw polisi ariannol cyfyngol ar waith ar o leiaf un achlysur yn ystod 2023/24 ond, hyd yma, dim ond Banc Cenedlaethol y Swistir sydd wedi torri cyfraddau, a hynny ar ddiwedd mis Mawrth 2024.

Mae cynnyrch 10 mlynedd y DU, EZ a'r Unol Daleithiau i gyd wedi aros yn ystyfnig uchel trwy gydol 2023/24. Mae chwyddiant yn llacio, er yn raddol, ond mae marchnadoedd llafur yn parhau i fod yn dynn iawn gan gymariaethau hanesyddol, gan ei gwneud yn fater o ddyfarniad dirwy ynghylch pryd y gellir torri'r cyfraddau.

Nid oedd unrhyw syndod gan Fanc Lloegr yn eu cyfarfod ym mis Mawrth, gan adael cyfraddau llog ar 5.25% am y pumed tro yn olynol ac, er nad oes unrhyw aelodau Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) bellach yn pleidleisio i godi cyfraddau llog, cadwodd ei ganllawiau cymharol hawddgar. Mae cyfathrebiadau'r Banc yn awgrymu bod yr MPC yn magu hyder y bydd chwyddiant yn gostwng yn gynaliadwy yn ôl i'r targed o 2.0%. Fodd bynnag, er i'r MPC nodi bod "safiad cyfyngol polisi ariannol yn pwysu ar weithgaredd yn yr economi go iawn, yn arwain at farchnad lafur fwy llac ac yn dwyn i lawr ar bwysau chwyddiant", i'r gwrthwyneb nododd fod dangosyddion allweddol o ran parhad chwyddiant yn parhau i gael eu dyrchafu a bydd polisi'n "gyfyngol am gyfnod digon hir" ac yn "gyfyngol am gyfnod estynedig".

Wrth gwrs, mae economi'r DU wedi dechrau perfformio ychydig yn well yn Ch1 2024, ond mae'n dal i wella ar ôl dirwasgiad bas trwy ail hanner 2023. Yn wir, gwelodd Ch4 2023 dwf Cynnyrch Gros Domestic GDP negyddol o -0.3% tra bod y twf b/b hefyd yn negyddol ar -0.2%.

Ond roedd yn ddirwasgiad rhyfedd. Mae diweithdra yn is na 4% ar hyn o bryd, yn erbyn cefndir o dros 900k o swyddi gwag, ac mae chwyddiant cyflog blynyddol yn uwch na 5%. Gyda chapiau prisiau nwy a thrydan yn gostwng ym mis Ebrill 2024, mae mesur Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) o chwyddiant - a gyrhaeddodd uchafbwynt o 11.1% ym mis Hydref 2022 - bellach i fod i lithro yn is na'r gyfradd darged o 2% ym mis Ebrill ac i aros yn is na'r meincnod Banc Lloegr hwnnw am yr ychydig flynyddoedd nesaf, yn ôl Capital Economics. Mae Banc Lloegr angen rhywfaint o argyhoeddi'r sgôr honno o hyd, ond bydd chwyddiant sydd ar ddod a datganiadau cyflogaeth yn setlo'r ddadl honno cyn bo hir. Nodir bod CPI craidd yn dal i fod yn 4.5% ym mis Chwefror ac, yn ddelfrydol, mae angen iddo syrthio ymhellach.

Fe wnaeth siopwyr ddiystyru'r tywydd anarferol o wlyb i raddau helaeth ym mis Chwefror, a dylai incwm cartref go iawn cynyddol gefnogi gweithgaredd manwerthu trwy gydol 2024. Ar ben hynny, mae effaith cyfraddau llog uwch ar daliadau llog cartref yn agosáu at ei uchafbwynt, er bod cyfraddau morgais cyfradd sefydlog ar fenthyciadau newydd wedi symud i fyny ychydig ers dod yn agos at 4.5% yn gynnar yn 2024.

O safbwynt cyllidol, bydd y toriadau pellach i dreth yswiriant gwladol (o fis Ebrill) a gyhoeddwyd yng Nghyllideb mis Mawrth, yn rhoi hwb i incwm gwario aelwydydd go iawn 0.5 - 1.0%. Ar ôl i incwm gwario cartref go iawn godi 1.9% yn 2023, rhagwelir Capital Economics bydd yn codi 1.7% yn 2024 a 2.4% yn 2025. Mae'r cynnydd hwn mewn incwm gwario cartref go iawn, ynghyd â pylu'r llusgo yn gynharach o godiadau blaenorol mewn cyfraddau llog, yn golygu y rhagwelir twf CDP o 0.5% yn 2024 a 1.5% yn 2025. Mae Banc Lloegr yn llai optimistaidd na hynny, gan weld twf yn ei chael hi'n anodd mynd yn agos at 1% dros y ddwy i dair blynedd nesaf.

O ran marchnadoedd ecwiti, mae'r FTSE 100 wedi codi i bron i 8,000 ac mae, erbyn hyn, dim ond 1% yn is na'r uchaf erioed y cyrhaeddodd ym mis Chwefror 2023. Cafodd y cynnydd cymedrol mewn ecwiti yn y DU ym mis Chwefror ei yrru gan berfformiadau cryf yn y sectorau diwydiannol cylchol a dewisol defnyddwyr, tra bod cyfathrebu a deunyddiau sylfaenol wedi gwneud yn wael.

### 3. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Mewnol

#### 3.1 Gwariant a Chyllid c Gyfalaf 2023/24 – Mae'r Cyngor yn mynd i wariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Gellir cyllido'r gweithgareddau hyn naill ai:-

- Ar unwaith trwy adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, chyfraniadau refeniw ac ati), nad yw'n cael unrhyw effaith ar angen y Cyngor i fenthycia; neu
- Trwy fenthycia: os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os penderfynir peidio â defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn arwain at yr angen i fenthycia.

Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn un o'r dangosyddion darbodus angenrheidiol. Mae'r tabl isod yn dangos y gwir wariant cyfalaf a sut y cyllidwyd hyn:-

	Amcangyfrif 2023/24 (£'m)	Gwirioneddol 2023/24 (£'m)
Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol	48	31
Gwariant Cyfalaf o'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	20	20
<b>Cyfanswm Gwariant Cyfalaf</b>	<b>68</b>	<b>51</b>
Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau	35	23
CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau	8	7
Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor	5	4
CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor	12	13
<b>Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol a gyllidwyd trwy fenthycia</b>	<b>8</b>	<b>4</b>
<b>Gwariant cyfalaf o'r CRT a gyllidwyd trwy fenthycia</b>	<b>0</b>	<b>0</b>

Y prif reswm am y tanwario oedd y tanwariant mawr yn erbyn y prosiectau a restrir isod:-

Cynllun	Tanwariant £'m	Sylwadau
Gwaith cyfalaf oherwydd Concrit wedi'i awyru, ei awtoglaffio a'i atgyfnerthu (RAAC)	1.014	Oherwydd materion RAAC, roedd angen i'r Cyngor ymrwymo i wariant, heb unrhyw sicrwydd o gyllid ychwanegol, er mwyn sicrhau diogelwch pawb yn yr ysgolion effeithwyd. Yna, cafwyd trafodaethau â LIC o ran cyllid ychwanegol ac, yn ystod rhan olaf 2023/24, dyfarnwyd £1.695m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cyfalaf yn gysylltiedig â RAAC. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido gwariant ar waith RAAC hyd yma, a'r gweddill ar adeiladau addysg yn 2023/24, yn hytrach na defnyddio cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid sydd wedi'i arbed gan yr Awdurdod yn sgil y grant hwn yn cael ei ddefnyddio'n awr i gyllido gweddill y gwaith RAAC yn 2024/25.
Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	0.372	Yn 2022/23, dyfarnwyd £0.476m o gyllid grant i'r Awdurdod i gefnogi dysgwyr sydd ag ADY. Ychydig iawn o wariant a gafwyd yn 2022/23, ac roedd tanwariant o £0.111m yn dilyn y gwariant a gafwyd yn 2023/24.  Yn yr un modd, cafwyd tanwariant o £0.261m ar y dyraniad ar gyfer 2023/24, ac mae LIC wedi rhoi caniatâd i'r Cyngor ddwyn ymlaen swm o £0.108m i gwblhau gwaith yr ymrwymwyd iddo.
Mynediad i Adeiladau Addysg i'r Anabl	0.134	Y rheswm am hyn yw bod addasiadau ar gyfer yr anabl wedi'u cwblhau ym mhob ysgol uwchradd heblaw am un. Mae gwaith yn yr ysgol uwchradd sy'n weddill wedi'i ohirio wrth ddisgwyl am ganlyniad astudiaethau dichonolrwydd. Mae gwaith yn cael ei gwblhau mewn ysgolion cynradd pryd a phan fydd angen.  Er bod buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud, efallai y bydd angen rhagor o waith yn y dyfodol i fynd i'r afael ag anghenion unigolion nad ydynt yn hysbys i ni eto, felly, mae angen i'r tanwariant lithro i 2024/25.
Cynlluniau Llifogydd Amrywiol	1.009	Mae rhai cynlluniau'n rhai parhaus ac maent yn pontio mwy nag un flwyddyn ariannol. Gwelwyd oedi gyda chynlluniau eraill ac mae LIC wedi cytuno ar estyniad amser er mwyn eu cwblhau a dwyn y cyllid ymlaen, tra bod cynlluniau eraill wedi'u cwblhau.
Cronfa Ffyniant Bro	6.151	Roedd y bidiau a dderbyniwyd fel rhan o'r broses dendro'n llawer uwch na'r gyllideb ac, oherwydd hynny, bu'n rhaid ail-dendro'r gwaith a lleihau'r cwmpas fel ei fod yn fwy ymarferol. Yn y pendraw, arweiniodd hyn at oedi yn y cynlluniau ac mae cais i ddwyn ymlaen £4.905m o'r tanwariant er mwyn cwblhau cynlluniau yr ymrwymwyd iddynt.
Adfywio Caergybi – Menter Treftadaeth Treflun Cam II	0.625	Mae'r gwaith wedi arafu'n gyffredinol yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac roedd disgwyl tanwariant, yn unol ag adroddiadau monitro blaenorol. O ganlyniad, bydd y rhan fwyaf o'r gwariant yn digwydd yn 2024/25.
Cyfarpar Ailgylchu Rheoli Gwastraff	0.256	Mae'r gwasanaeth wedi adolygu a blaenoriaethu ei wariant cyfalaf yn unol â'i strategaeth a'i gynllun ariannol 5 mlynedd ac mae nawr wrthi'n caffael pedwar eitem o beiriannau a pheirianwaith. Fodd bynnag, mae'r amseroedd arwain posib yn dilyn derbyn tendrau llwyddiannus yn golygu nad yw'r peiriannau a'r pheirianwaith yn debygol o gael eu cyflenwi yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Serch hynny, mae'r cyllid wedi'i ymrwymo'n llawn.

Cynllun	Tanwariant £'m	Sylwadau
Isadeiledd Morwrol	0.178	Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn cael ei ail-ddylunio ac, oherwydd yr amseru, mae cais i ddwyn y gyllideb ymlaen i 2024/25 er mwyn cwblhau'r cynllun hwn. Mae hyn yn cyd-fynd ag adroddiadau monitro blaenorol.
Isadeiledd Ymwelwyr	0.194	Roedd disgwyl tanwariant, yn unol ag adroddiadau monitro blaenorol, oherwydd bod angen cyllid cyfatebol ar gyfer y grant Cronfa Ffyniant ar y Cyd ac mae'n fanteisiol i'r rhanbarth wario cymaint â phosib o gyllid grant eleni a darparu ein cyllid cyfatebol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Gofynnir, felly, am gael dwyn y cyllid hwn ymlaen i flwyddyn ariannol 2024/25.
Grantiau Gwres Carbon Isel (LCHG)	3.805	Oherwydd bod y LCHG wedi cael ei ddyfarnu'n hwyr a, fel y trafodwyd ym mharagraff 3.1, derbyniwyd £5.744m yn 2023/24, a gwariwyd £1.939m.
Gwaith cyfalaf ar asedau presennol	0.503	Mae gweddill y gyllideb wedi'i hymrwymo ar gyfer gwaith sy'n pontio 2023/24 a 2024/25.
Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus	0.280	Mae'r gwasanaeth wrthi'n datblygu cynllun gwella toiledau cyhoeddus, a bydd y cynllun hwnnw'n rhoi gwell syniad o'r gofynion cyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Rhagwelir, hefyd, efallai y bydd cyllid grant ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer gwaith cyfalaf ar doiledau cyhoeddus, ac, unwaith eto, efallai y bydd rhan o'r gyllideb hon yn cael ei defnyddio fel cyllid cyfatebol pe cyfyd y cyfle.
Cerbydau a Cherbydau Graeanu	0.771	Ni wariwyd y gyllideb ar gyfer cerbydau graeanu oherwydd nad oedd cerbydau addas ar gael i'w prynu.  Archebwyd cerbydau eraill cyn diwedd y flwyddyn, ond, oherwydd yr amseroedd aros cyn eu cyflenwi, ni fyddant yn cael eu derbyn tan ar ôl diwedd y flwyddyn, felly bydd angen i'r gyllideb lithro i flwyddyn ariannol 2024/25.

**3.2 Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau Arian Parod** – Mae balansau arian parod y Cyngor yn cynnwys adnoddau referniw a chyfalaf a chyllid ar gyfer llif arian. Roedd adnoddau arian parod craidd y Cyngor fel a ganlyn:-

Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau y gellir eu defnyddio	Drafft 31 Mawrth 2024 £'m	Terfynol 31 Mawrth 2023 £'m
Cronfa wrth gefn gyffredinol Cronfa'r Cyngor	15.604	14.039
Cronfeydd wrth gefn clustnodedig	16.779	19.637
Cronfa wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	8.189	12.107
Cronfa wrth gefn Gyfalaf y (CRT)	0.509	0.00
Cronfeydd wrth gefn ysgolion	5.577	6.716
Cronfeydd wrth gefn derbyniadau cyfalaf	2.390	1.908
Grant Cyfalaf heb ei Ddefnyddio	0.464	0.407
Cronfa wrth gefn Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.587	0.000
<b>Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio</b>	<b>50.099</b>	<b>54.814</b>
<b>Darpariaethau</b>	<b>4.703</b>	<b>5.037</b>
<b>Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio a'r darpariaethau</b>	<b>54.802</b>	<b>59.851</b>

**3.3 Allanolï benthycya** – Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthycya ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r GCC yn deillio o weithgareddau cyfalaf y Cyngor a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2023/24 a gyllidwyd drwy fenthycya, a gwariant cyfalaf a gyllidwyd drwy fenthycya yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei ad-dalu gyda refeniw neu adnoddau eraill. Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido ar gyfer yr angen benthycya hwn. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae'r Gwasanaeth Trysorlys yn trefnu arian parod y Cyngor er mwyn sicrhau bod arian parod digonol ar gyfer y cynlluniau cyfalaf a'r gofynion llif arian. Gallai hyn gael ei gyllido drwy fenthycya gan gyrrff allanol (megis y Llywodraeth, drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb) neu'r marchnadoedd arian) neu drwy ddefnyddio adnoddau arian parod dros dro o fewn y Cyngor. Ni fenthycwyd unrhyw gyllid allanol yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

**3.3.1 Benthycya Gros a'r GCC** - Er mwyn sicrhau bod y lefelau benthycya'n ddarbodus dros y tymor canol ac y benthycir at ddibenion cyfalaf yn unig, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthycya allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrif o unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn benthycya er mwyn cefnogi gwariant refeniw.

Mae'r strategaeth fenthycya fewnol bellach wedi bod ar waith yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r benthycya gros o £122.4m ar 31 Mawrth 2024 yn llai na'r GCC a ragwelir ar gyfer y ddwy flynedd nesaf:-

	<b>Gwirioneddol 2023/24 £'m</b>	<b>Amcangyfrif 2024/25 £'m</b>	<b>Amcangyfrif 2025/26 £'m</b>
Gofyniad Cyllido Cyfalaf	146.7	154.5	170.8

**3.3.2 Benthycya mewnol** - yw pan ddisgwylir, dros y tymor canol, i'r cyfraddau buddsoddi barhau i fod yn is na'r cyfraddau benthycya tymor hir. Mae hyn yn golygu y byddai ystyriaethau gwerth am arian yn dangos y gellid cael gwerth am arian drwy osgoi cymryd benthyciadau allanol newydd a drwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyledion allanol sy'n aeddfedu. Byddai hyn yn sicrhau'r arbedion tymor byr gorau. Y ffigwr benthycya mewnol yw'r gwahaniaeth rhwng y GCC a'r Sefyllfa Benthycya Gros. Fel y gwelir o'r tabl isod, ar ddechrau'r flwyddyn, y sefyllfa fenthycya fewnol oedd £20.3m. Doedd dim benthyciadau PWLB newydd yn y flwyddyn a £1.0m o brif ad-daliadau. Mae hyn wedi arwain at y sefyllfa benthycya mewnol ar 31 Mawrth 2024 bellach yn £24.3m:-

	<b>31 Mawrth 2023 Gwirioneddol £'m</b>	<b>31 Mawrth 2024 Gwirioneddol £'m</b>
Sefyllfa fenthycya gros	123.8	122.4
GCC	144.1	146.7
(Tan) / Gorgyllido'r GCC	(20.3)	(24.3)

**3.4 Benthyciadau eraill** - Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth y Cyngor ymrwymo i unrhyw fenthyciadau tymor byr eraill.

**3.5 Ad-dalu Dyledion** - Roedd tri benthyciad PWLB a aeddfedwyd yn ystod y flwyddyn. Aeddfedwyd £1m ar 16 Ionawr 2024 ac fe'i ad-dalwyd ar y dyddiad hwn. Cymerwyd y benthyciad yn wreiddiol ym mis Mai 1995 ar gyfradd llog o 8.5%. Ad-dalwyd £0.569m, a aeddfedwyd 31 Mawrth 2024, ar 2 Ebrill 2024 ac, felly, ystyrir ei fod dal heb ei dalu ar 31 Mawrth 2024. Cymerwyd y benthyciad yn wreiddiol ym mis Hydref 1993 ar gyfradd llog o 7.785%. Ad-dalwyd £0.285m, a aeddfedwyd 31 Mawrth 2024, ar 2 Ebrill 2024 ac, felly, ystyrir ei fod dal heb ei dalu ar 31 Mawrth 2024. Cymerwyd y benthyciad yn wreiddiol ym mis Mai 1995 ar gyfradd llog o 8.5%.

**3.6 Buddsoddiadau** – Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuron tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod), er bod y gallu i fuddsoddi allan i gyfnodau hirach yn cael ei gadw. Roedd disgwyl i falansau arian parod fod hyd at £62.3m, yn amrywio rhwng £31.6m a £62.3m. Roedd y gyllideb llog o £1.423m a osodwyd ar gyfer 2023/24 yn seiliedig ar falansau arian parod amcangyfrifedig ac enillion buddsoddiad tebygol yn seiliedig ar gyfradd Sylfaenol. Fodd bynnag, hefo cyfraddau llog yn codi'n uwch na'r hyn a ragwelwyd amser cynhyrchu cyllideb 2023/24 a, thrwy hynny, yn darparu mwy o gyffleodd i fuddsoddi arian parod dros ben, dychwelwyd £1.831m ar falansau cyfartalog o £48.7m, gyda chyfradd llog cyfartalog o 4.32%.

Bu i enillion buddsoddi godi drwy gydol 2023/24 wrth i fanciau canolog, gan gynnwys Banc Lloegr, barhau i ymateb i bwysau chwyddiant nad oeddent yn drosglwyddol, a sylweddolwyd bod galw am bolisi ariannol tynnach. Gan ddechrau ym mis Ebrill ar 4.25%, symudodd Cyfradd Banc i fyny mewn codiadau cam o naill ai 0.25% neu 0.5%, gan gyrraedd 5.25% erbyn mis Awst. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, ni ragwelwyd cynnydd pellach.

Roedd rhan o adneuron y Cyngor yn cael eu dal mewn cyfrifon adneuron di-rybudd, sy'n talu llog ar gyfraddau yn agos i'r gyfradd sylfaenol gyffredinol, £16.602m ar 4.11% ar 31 Mawrth 2024 (31 Mawrth 2023 £11.521m ar 1.25%). Roedd tri buddsoddiad tymor byr arall ar 31 Mawrth 2024 - £15.0m ar gyfradd llog o 5.18% (£30.0m ar 3.96% ar 31 Mawrth 2023). Roedd yr holl fuddsoddiadau am lai na blwyddyn.

Mae'r buddsoddiadau a oedd heb eu talu ar 31 Mawrth 2023, wedi aeddfedu ym mlwyddyn ariannol 2023/24 ac a ailfuddsoddiwyd ar yr un dyddiad. Nodir manylion yr holl fuddsoddiadau newydd yn y flwyddyn, gyda'u cyfraddau llog priodol, yn y tabl isod:

Gwrth Barti	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Dod i Ben	Cyfradd Llog	Swm	Prifswm Buddsoddi ar 31 Mawrth 2024
			%	£	£
National Westminster Bank Tymor Penodol	11/1/2023	11/7/2023	4.10%	10,000,000	-
National Westminster Bank Tymor Penodol	11/7/2023	11/1/2024	5.88%	10,000,000	-
National Westminster Bank Tymor Penodol	11/1/2024	11/3/2024	5.25%	10,000,000	-
National Westminster Bank Tymor Penodol	11/3/2024	11/6/2024	5.23%	5,000,000	5,000,000
Santander	10/2/2023	10/5/2023	4.00%	7,500,000	-
Santander	10/5/2023	10/11/2023	4.76%	7,500,000	-
Santander	10/11/2023	9/2/2024	5.34%	5,000,000	-
Santander	9/2/2024	9/5/2024	5.19%	5,000,000	5,000,000
Nationwide Building Society	6/4/2023	6/7/2023	4.17%	5,000,000	-
Nationwide Building Society	6/7/2023	8/1/2024	5.47%	5,000,000	-
Nationwide Building Society	8/1/2024	8/4/2024	5.11%	5,000,000	5,000,000
Goldman Sachs	22/12/2022	22/12/2023	3.83%	7,500,000	-
Goldman Sachs	22/6/2023	22/12/2023	5.52%	7,500,000	-
Wakefield Council	22/8/2023	22/9/2023	5.23%	5,000,000	-
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	25/10/2022	25/4/2023	3.80%	5,000,000	-
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	25/04/2023	25/10/2023	4.30%	5,000,000	-

**3.7 Sefyllfa'r Trysorlys ar 31 Mawrth 2024** – Mae sefyllfa dyledion a buddsoddi'r Cyngor yn cael ei threfnu gan y Gwasanaeth Rheoli Trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer y gweithgareddau refeniw a chyfalaf, diogelwch ar gyfer buddsoddiadau ac i reoli risgiau o fewn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy gyflwyno'r adroddiadau a nodir yn y crynodeb i Aelodau, a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2023/24. Nid aethpwyd tu hwnt i'r terfynau uchaf ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiol yn ystod y flwyddyn. Mae ffigyrau benthyca a buddsoddi'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2022/23 a 2023/24 fel a ganlyn:-

	31 MAWRTH 2023			31 MAWRTH 2024		
	£'m	Cyfradd Gyfartalog (%)	Aeddfedrwydd Gyfartalog (blynyddoedd)	£'m	Cyfradd Gyfartalog (%)	Aeddfedrwydd Gyfartalog (blynyddoedd)
Dyled i'r PWLB	119.6	4.540	29.15	118.5	4.47	30.9
Dyledion Eraill	4.2		3.73	3.9	0	4.49
<b>Cyfanswm</b>	<b>123.8</b>			<b>122.4</b>		
GCC	144.1			146.7		
Gor / (tan) fenthyca	(20.3)			(24.3)		
Buddsoddiadau tymor sefydlog (pob un < 1 blwyddyn, wedi eu rheoli yn fewnol ac ar gyfradd sefydlog)	30.000	3.96		15.000	5.18	
	11.521	1.25		16.602	4.11	
Buddsoddiadau di-rybudd (pob un wedi ei reoli yn fewnol)						
<b>Cyfanswm Buddsoddiadau</b>	<b>41.521</b>	<b>3.21</b>		<b>31.602</b>	<b>4.62</b>	

Dadansoddiad pellach o'r benthyca yn ôl y cyfnod aeddfedu:-

	31 MAWRTH 2023		31 MAWRTH 2024	
	£'m	% o'r cyfanswm	£'m	% o'r cyfanswm
Cyfanswm benthyca	123.8	100	122.4	100
Llai na 12 mis	2.3	1.9	1.2	1.0
1 – 3 blynedd	3.3	2.7	5.0	4.1
4 – 6 blynedd	5.6	4.5	3.5	2.8
7 – 10 mlynedd	3.8	3.1	4.3	3.5
10 mlynedd a mwy	108.8	87.8	108.4	88.6

Ni chymerwyd benthyciadau newydd yn ystod y flwyddyn (tymor hir neu fyr). Ad-dalwyd dyledion yn y flwyddyn fel y nodir yn 3.5 uchod. Felly, mae'r symudiadau yn y categorïau uchod yn unol â dyddiadau aeddfedu'r benthyciadau yn unig.

#### 4. Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor 2023/24

**4.1 Aildrefnu Dyledion** – Ni chafodd unrhyw ddyledion eu haildrefnu yn ystod y flwyddyn gan fod y gwahaniaeth o 1% ar gyfartaledd rhwng cyfraddau benthyca newydd y PWLB a chyfraddau ad-dalu cynamserol yn golygu nad oedd yn werth aildrefnu.

**4.2 Benthyca cyn bod angen** – Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth y Cyngor fenthyg mwy nag yr oedd ei angen, na chyn bod angen, dim ond er mwyn elwa ar fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthyciwyd.

- 4.3 Polisi Buddsoddi** – Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cael ei reoli gan ganllawiau buddsoddi Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a roddwyd ar waith yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys blynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 9 Mawrth 2023. Mae'r polisi hwn yn nodi'r dull ar gyfer dewis gwrthbartion buddsoddi, ac mae'n seiliedig ar statws credyd a ddarparwyd gan y tair prif asiantaeth statws credyd ac ar ddata ychwanegol mewn perthynas â'r farchnad (megis rhagolygon ar gyfer cyfraddau, cyfnewidiadau diffyg credyd, prisiau cyfranddaliadau banc ac ati). Roedd y gweithgareddau buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw anawsterau hylifedd. Pan fydd y Cyngor yn buddsoddi ei arian dros ben, yr elfen bwysicaf yw diogelwch y buddsoddiad, ac yna yr hylifedd ac wedyn yr elw. Yn ei hanfod, golyga hyn mai'r prif flaenoriaeth yw diogelwch yr arian parod ac yna pa mor hawdd yw cael gafael ar arian parod pe bai'r Cyngor ei angen, ac wedyn canran y llog y bydd y Cyngor yn ei dderbyn am y buddsoddiad. Y strategaeth ar fuddsoddi arian parod dros ben fyddai benthycu tymor byr gydag Awdurdodau Lleol eraill i sicrhau'r enillion mwyaf mewn ffordd ddiogel.
- 4.4 Strategaeth fenthycu a rheoli risg cyfraddau llog** – Yn ystod 2023/24, cynhaliodd y Cyngor sefyllfa o danfenthycu. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr angen benthycu cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi'i gyllido'n llawn â dyled benthyciadau, gan fod arian parod a oedd yn cefnogi cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor yn cael ei ddefnyddio fel cam dros dro. Roedd y strategaeth hon yn un ddarbodus gan fod enillion ar fuddsoddiadau yn isel iawn ac roedd angen ystyried lleihau risg gwrthbartion wrth fuddsoddi hefyd.
- 4.5 Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI)** – Yn 2022/23, rhoddodd y Cyngor bolisi DRI newydd ar waith ar ôl gofyn am gyngor gan ei gynghorwyr Trysorlys. Mae'r polisi newydd yn ddull mwy darbodus, gyda'r tâl DRI yn adlewyrchu'n well y newid yng ngwerth asedau. Gellir gweld y polisi newydd yn Atodiad 6 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023.

## 5. Rheoli'r Trysorlys

Mae'r dangosyddion Darbodus canlynol wedi'u cynnwys yn Atodiad 11 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Gweler isod esboniad byr o beth yw'r dangosyddion a sut y byddant yn cael eu cyfrifo. Bydd Adran 6 yr adroddiad hwn yn dadansoddi'r gwahaniaethau rhwng y Dangosyddion Darbodus gwirioneddol a'r rhai a ragwelwyd ar gyfer 2023/24.

- **Gwariant Cyfalaf – Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf** – Dyma'r rhagolwg o'r Gwariant Cyfalaf rhwng 2023/24 a 2026/27, ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024/25.
- **Angen y Cyngor i Fenthycu (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf - GCC)** - Dangosydd darbodus arall yw GCC y Cyngor. Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol sy'n weddill na thalwyd amdano eto, naill ai o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n cyfateb i angen benthycu sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf uwch na hynny, ac na thalwyd amdano'n syth drwy adnoddau refeniw neu gyfalaf, yn cynyddu'r GCC. Nid yw'r GCC yn cynyddu am gyfnod amhenodol, gan fod y DRI yn dâl refeniw blynyddol statudol sydd, yn fras, yn lleihau'r angen i fenthycu yn unol â hyd oes pob ased ac, felly, codir tâl am yr asedau cyfalaf fel y byddant yn cael eu defnyddio.
- **Doethineb Ariannol – Dyledion Gros a'r GCC** – Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw ei ddyled gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon o unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2023/24 a'r ddwy flynedd ariannol ganlynol. Mae hyn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer benthycu cynnar cyfyngedig ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ond mae'n sicrhau nad yw benthycu yn cael ei wneud at ddibenion refeniw.

- **Dyledion Allanol - Y trothwy awdurdodedig ar gyfer dyledion allanol** - Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn cyfyngu lefel y benthyca i uchafswm penodol. Mae'n uchafswm na fedrir benthyca'n allanol y tu draw iddo, ac mae angen i'r uchafswm hwn gael ei osod neu ei adolygu gan y Cyngor llawn. Mae'n adlewyrchu lefel y ddyled allanol, er nad yn ddelfrydol, y gellir ei chynnal yn y tymor byr, ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hir. Dyma'r cyfyngiad statudol y penderfynir arno o dan Adran 3 (1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai cynlluniau'r holl gynghorau, neu gynlluniau cyngor penodol, er nad yw'r pŵer hwn wedi'i roi ar waith hyd yma. Mae'r Swyddog Adran 151 yn adrodd fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r dangosydd darbodus hwn yn ystod y flwyddyn gyfredol ac nad yw'n rhagweld anawsterau ar gyfer y dyfodol. Mae'r safbwynt hwn yn ystyried yr ymrwymadau presennol, y cynlluniau presennol a'r cynigion yn yr adroddiad ar y gyllideb. Mae'r Uchafswm Awdurdodedig yn cael ei osod yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a chaiff ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.
- **Y terfyn gweithredol** – Dyma'r terfyn na ddisgwylir i ddyledion allanol fod yn uwch nag ef fel arfer. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai hwn yn ffigwr tebyg i'r GCC, ond gallai fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r dyledion gwirioneddol a'r gallu i gyllido tanfenthyciadau drwy adnoddau ariannol eraill. Mae'n dderbyniol cael cyfnodau pan fo'r sefyllfa wirioneddol naill ai o dan neu uwchben y terfyn gweithredol ar yr amod nad eir y tu hwnt i'r terfyn awdurdodedig. Gosodir y Terfyn Gweithredol yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a chaiff ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.
- **Fforddiadwyedd – Y gymhareb rhwng costau cyllido a'r ffrwd refeniw net** – Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r duedd yng nghost cyfalaf (benthyca a chostau rhwymedigaethau hirdymor eraill net o incwm o fuddsoddiadau) yn erbyn y llif refeniw net.

## 6. Y Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol o gymharu â'r Rhai a Ddisgwyliwyd

6.1 Yn ystod 2023/24, cydymffurfiodd y Cyngor â'i ofynion deddfwriaethol a rheoleiddio. Mae'r data allweddol ar gyfer y dangosyddion darbodus a'r dangosyddion trysorlys gwirioneddol, sy'n nodi effaith y gweithgareddau gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

Data ar gyfer Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys Gwirioneddol	2022/23 Gwirioneddol £'m	2023/24 Gwreiddiol £'m	2023/24 Gwirioneddol £'m
<b>Gwariant Cyfalaf</b>			
• Dim CRT	29.510	15.110	30.768
• CRT	11.180	31.847	19.806
• <b>Cyfanswm</b>	<b>40.690</b>	<b>46.957</b>	<b>50.574</b>
<b>Cyfanswm Gofynion Cyllido Cyfalaf:</b>			
• Dim CRT	105.825	116.576	108.545
• CRT	38.287	60.101	38.151
• <b>Cyfanwm</b>	<b>144.112</b>	<b>176.677</b>	<b>146.696</b>
<b>Benthyca Gros</b>	123.800	159.610	122.400
<b>Dyledion Allanol</b>	123.800	159.610	122.400
<b>Buddsoddiadau</b>			
• Mwy nag 1 flwyddyn	0	0	0
• Llai nag 1 flwyddyn	41.522	15.000	31.603
• <b>Cyfanswm</b>	<b>41.522</b>	<b>15.000</b>	<b>31.603</b>
Costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net – Cronfa'r Cyngor	3.11%	2.23%	3.16%
Costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net - CRT	7.26%	21.14%	5.09%

**6.2** Y Dangosydd Darbodus cyntaf yn y tabl uchod yw'r Gwariant Cyfalaf. Y Gwariant Cyfalaf a ragwelwyd ar adeg paratoi'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2023/24 oedd £46.957m. Fodd bynnag, y gwir wariant oedd £50.574m. Roedd y dangosydd darbodus yn seiliedig ar amcangyfrifon gwariant cyfalaf o wahanol ffynonellau ar gyfer 2023/24, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. Mewn gwirionedd, y gyllideb gyfalaf derfynol a gymeradwywyd ar gyfer 2023/24 oedd £37.962m, sy'n cynnwys cronfa gyffredinol o £24.205m a £13.557m o CRT. Fodd bynnag, nid yw'r gyllideb hon yn cynnwys unrhyw symiau llithro o'r flwyddyn flaenorol a hefyd y ffaith bod cynlluniau ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y rhaglen gyfalaf drwy gydol y flwyddyn, a dyna pam mae'r gwariant cyfalaf nad yw'n CRT yn uwch na'r hyn a gyllidebwyd yn wreiddiol ar ei gyfer. Cyfeiriwch at baragraff 3.1 yn yr adroddiad hwn ar gyfer y gyllideb gyfalaf derfynol nad yw'n CRT o'i chymharu â'r gwariant gwirioneddol a'r rhesymau dros y tanwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb.

**6.3** Yr ail Ddangosydd Darbodus yn y tabl uchod yw'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC). Ni chaniateir i angen sylfaenol y Cyngor i fenthycia (GCC) godi am gyfnod amhenodol. Mae rheolaethau statudol wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn cael eu codi yn fras yn erbyn referniw yn ystod oes yr ased. Mae angen i'r Cyngor godi tâl referniw blynyddol, y cyfeirir ato fel y Ddarpariaeth Referniw Isaf (DRI), er mwyn lleihau'r GCC. Yr hyn ydyw, mewn gwirionedd, yw ad-daliad o'r angen i fenthycia. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian parod ar gael ar gyfer ymrwymadau cyfalaf. Gall dyledion allanol hefyd gael eu benthycia neu eu had-dalu ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y GCC. Gellir hefyd leihau cyfanswm y GCC drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- codi mwy na'r tâl referniw statudol (DRI) bob blwyddyn drwy'r Ddarpariaeth Referniw Gwirfoddol (VRP).

Y GCC a ragwelwyd ar adeg paratoi'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2023/24 oedd £176.677m. Fodd bynnag, roedd y GCC gwirioneddol yn sylweddol is ar £146.696m. Roedd y GCC disgwyliedig ar gyfer CRT yn cynnwys £20m o fenthycia yn 2023/24. Nid oedd unrhyw fenthycia newydd ar gyfer CRT yn 2023/24 ac felly nid yw'r gostyngiad yn y GCC HRA o ganlyniad i ddim benthycia yn 2023/24 ar gyfer CRT. Un o'r rhesymau dros y gostyngiad mewn GCC heb fod yn CRT oedd y swm gostyngedig o Fenthycia Digefnogaeth sydd ei angen mewn perthynas â'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn 2023/24. Cyllidwyd y gwariant yn bennaf drwy grant, a thrwy hynny'n lleihau'r angen am fenthycia. Rheswm arall oedd bod grantiau ychwanegol wedi cael eu dyfarnu yn ystod y flwyddyn i roi cymhorthdal i ffynonellau cyllid eraill, fel Benthycia â Chefnogaeth. Roedd hyn yn golygu bod angen llai o Fenthycia â Chefnogaeth ac, felly'n lleihau'r ffigwr GCC. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd i ddod, bydd y ffynhonnell cyllido â chymhorthdal hon yn cael ei defnyddio i gyllido'r Gwariant Cyfalaf yn 2024/25 a bydd yn cynyddu'r GCC.

**6.4** Nid aethpwyd tu hwnt i'r Terfyn Benthycia Awdurdodedig (£210m) na'r Terfyn Gweithredol (£205m) yn ystod y flwyddyn, gyda swm y ddyled Allanol yn cyrraedd uchafswm o ddim ond £123.8m.

**6.5** Roedd y costau Cyllido, fel cyfran o'r llif referniw net ar gyfer y Gronfa Gyffredinol (3.16%), ychydig yn uwch na'r disgwyl (2.23%) oherwydd bod y costau cyllido yn uwch na'r disgwyl ar adeg cynhyrchu'r dangosydd. Roedd y costau cyllido fel cyfran o'r llif referniw net ar gyfer y CRT (5.09%), yn is na'r cyfanswm a ragwelwyd (21.14%) oherwydd bod y costau cyllido yn sylweddol is na'r disgwyl ar adeg cynhyrchu'r dangosydd arfaethedig ar gyfer 2023/24 (a briodolir i'r newid yng nghyfrifiad DRI, gan arwain at dâl DRI is a llai o ofynion benthycia).

## 7. Edrych ymlaen at 2024/25 a thu draw i hynny

- 7.1 Ar 7 Mawrth 2024, cymeradwyodd y Cyngor llawn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25. Roedd y Datganiad ar y Strategaeth yn seiliedig ar y Strategaeth Gyfalaf, a rhagwelir y bydd angen i'r Cyngor fenthycu £9.049m yn ychwanegol yn 2024/25 ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a throsi £15m o fenthycu mewnol i fenthycu allanol, cyfanswm o £17.7m yn 2025/26 a chyfanswm pellach o £12.0m yn 2026/27 i gyllido ei Raglen Gyfalaf, gan nodi y rhagwelir y bydd mwyafrif y benthycu hwn yn cyllido rhaglen gyfalaf y CRT. Bydd y benthycu ychwanegol yma yn effeithio ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) a godir i gyllido'r costau cyllido cyfalaf. Yn 2024/25, rhagwelir y bydd y DRI yn £1.2m, £1.5m yn 2025/26 a £1.7m yn 2026/27.
- 7.2 Ar 8 Ebrill 2024, buddsoddodd Cyngor Sir Ynys Môn £5m gyda Banc Rhyngwladol Goldman Sachs am 6 mis, gyda chyfradd llog o 5.29%.
- 7.3 Ar 9 Mai 2024, aeddfedodd buddsoddiad o £5m gyda Santander ac fe'i rholiodd drosodd am 6 mis arall, gyda chyfradd llog o 5.07%.
- 7.4 Ar 9 Mai 2024, buddsoddodd Cyngor Sir Ynys Môn £5m gyda National Westminster Bank Plc am 3 mis, gyda chyfradd llog o 5.23%.
- 7.5 Ar 11 Mehefin 2024, aeddfedodd buddsoddiad o £5m gyda National Westminster Bank Plc ac fe'i rholiodd drosodd am 6 mis arall gyda chyfradd llog o 5.23%.
- 7.6 Nid oes unrhyw brif ad-daliadau o fenthycu PWLB yn ddyledus gan Gyngor Sir Ynys Môn ym mlwyddyn ariannol 2024/25.
- 7.7 Y gyllideb llog derbyniadwy o £0.885m a osodwyd ar gyfer 2024/25 oedd y balansau amcangyfrifedig o falansau arian a buddsoddiadau hylifol ac amcangyfrif o gyfradd llog gyfartalog. Y llog a dderbyniwyd i chwarter 1 2024/25 oedd £465k, a rhagwelir y gellir bodloni'r gyllideb llog derbyniadwy yn 2024/25.
- 7.8 Gellir gweld y gyfradd llog diweddaraf a ragwelir gan Link Group (ar Gorffennaf 2024) yn y tabl isod:-

Cyfradd Banc	Nawr	Meh 2024	Medi 2024	Rhag 2024	Maw 2025	Meh 2025	Medi 2025	Rhag 2025	Maw 2026	Meh 2026	Medi 2026	Rhag 2026	Maw 2027
Link Group	5.25%	5.25%	5.00%	4.50%	4.00%	3.50%	3.25%	3.25%	3.25%	3.25%	3.00%	3.00%	3.00%

## 8. Casgliad

Roedd perfformiad Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth o fuddsoddiadau risg isel / enillion isel a dull benthycu a gynlluniwyd i leihau taliadau llog gymaint â phosibl.

Mae'r perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a osodwyd gan y Cyngor yn dangos bod gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn cael eu cynnal mewn ffordd reoledig sy'n sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor ac nad ydynt yn rhoi'r Cyngor mewn unrhyw berygl ariannol sylweddol o ran benthycu anfforddiadwy neu ormodol.

Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor, a'i berfformiad yn erbyn y strategaeth, yn ystyried y ffactorau economaidd allanol ac mae'n cael ei hadolygu'n gyson i sicrhau mai hon yw'r strategaeth fwyaf priodol wrth symud ymlaen.

